## Pecyn Gwybodaeth: Dirprwy Reolwr Gweithrediadau (Llawn Amser)

**Amdan y Mwldan:**

**Sinema a chanolfan y celfyddydau perfformio byw, llawn bywyd, yw'r Mwldan, wedi'i lleoli yn Aberteifi, Gorllewin Cymru. Rydym wedi bod yn gwasanaethu ein cymuned ers 1983.** Rydym wedi ymrwymo'n angerddol i ddarparu profiadau rhagorol a gwella gwead diwylliannol ein cymuned, gan ysbrydoli ac ymgysylltu ein cynulleidfaoedd â rhaglen gyffrous trwy gydol y flwyddyn o ffilmiau, theatr, comedi, digwyddiadau a chynyrchiadau cerddoriaeth, a gŵyl Lleisiau Eraill Aberteifi. Dathlwn y byd-eang a lleol, gan weithredu mewn cymuned ddwyieithog.

**Ynglŷn â'r rôl:**

Fel y Dirprwy Reolwr Gweithrediadau, byddwch wrth galon ein gweithrediadau, yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Gweithrediadau i sicrhau bod ein canolfan gelfyddydau a'n sinema yn rhedeg yn ddidrafferth bob dydd. Byddwch yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio profiad yr ymwelydd tra'n arwain ein hadran Blaen y Tŷ er mwyn darparu gwasanaethau cwsmeriaid eithriadol ar draws ein rhaglen brysur o ddigwyddiadau yn fewnol yn y Mwldan, a hefyd ar draws ein stiwdios a'n gofodau gwaith, ac yn ôl yr angen er mwyn cyflwyno ein digwyddiadau allanol a'n gŵyl Lleisiau Eraill flynyddol yn Aberteifi.

Mae'r Dirprwy Reolwr Gweithrediadau yn gweithio o dan gyfarwyddyd y Rheolwr Gweithrediadau, gan ei chefnogi o ddydd i ddydd ac yn goruchwylio'r adran yn ei habsenoldeb. Bydd y Dirprwy Reolwr Gweithrediadau yn gyfrifol am reoli pob agwedd ar yr adran Blaen y Tŷ, staff, gwerthiannau a gweithrediadau er mwyn darparu gwasanaethau cwsmeriaid o'r ansawdd uchaf, mewn modd sydd bob amser yn ddigynnwrf, yn broffesiynol, yn gyfeillgar ac yn galonogol.

Bydd gofyn i chi weithio 37.5 awr yr wythnos gydag 20 diwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn ynghyd â Gwyliau Banc. Bydd angen gweithio ar y penwythnos a gyda'r nos, a bydd hefyd angen lefel uchel o hyblygrwydd. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd gofyn i chi fynychu cynadleddau, hyfforddiant neu ddigwyddiadau allanol y tu hwnt i'r oriau hyn, gyda rhybudd ymlaen llaw.

Y cyflog ar gyfer y swydd hon yw £29,785 gan godi i £31,286 ar ôl cwblhau cyfnod prawf o 6 mis yn llwyddiannus.

**Mae buddion yn cynnwys:**

- iwnifform wedi'i darparu
- parcio am ddim i staff (y cyntaf i'r felin)
- tocynnau a phopcorn ar gyfer sioeau am ddim
- cyfraniadau pensiwn cenedlaethol
- oriau gwaith hyblyg
- cyfleoedd hyfforddi
- cyfle i fod yn rhan o dîm brwd, gweithgar

## Y Person

**Eich cyfraniad chi i'r rôl:**

- Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.
- Brwdfrydedd dros y celfyddydau ac ymrwymiad i wasanaethau cwsmeriaid rhagorol ac ymgysylltu â'r gymuned
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol, gyda'r gallu i ysgogi ac ysbrydoli eraill.
- Sgiliau arwain a rheoli tîm cryf, yn ddelfrydol gyda phrofiad mewn cysylltu â gwirfoddolwyr a'u cydlynu.
- Profiad profedig mewn rheoli gweithrediadau neu letygarwch, yn ddelfrydol o fewn amgylchedd diwylliannol neu artistig.
- Dull gweithredu rhagweithiol y gellir ei addasu, yn barod i fynd i'r afael â heriau yn uniongyrchol gydag agwedd gadarnhaol.
- Gwybodaeth am reoliadau iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i leoliadau cyhoeddus.
- Y gallu i weithio oriau hyblyg, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau yn ôl yr angen.

**Cyfle Cyfartal**

Os ydych yn berson anabl ac yn teimlo ni allwch fodloni rhai o ofynion penodol y swydd oherwydd eich anabledd, manylwch ar hyn yn eich cais.

Mae Theatr Mwldan yn gyflogwr cyfle cyfartal.

**Y Broses Ymgeisio**

Dylai ymgeiswyr wneud cais am y swydd trwy gyflwyno CV cyflawn gyda llythyr cysylltiedig. Dylai eich cais gynnwys manylion llawn am gyflogaeth gyfredol a blaenorol, yn enwedig profiad sy’n berthnasol i'r swydd a hysbysebwyd, yn ogystal â’ch hanes addysg. Efallai y bydd ymgeiswyr yn dymuno cynnwys unrhyw wybodaeth neu ddeunydd ychwanegol y maent yn eu hystyried yn berthnasol i'w cais.

Dylai ceisiadau gael eu marcio gyda ‘Cyfrinachol’ a'u hanfon at Jasmine Revell, Rheolwr Gweithrediadau, Theatr Mwldan, Heol Bath House, Aberteifi, SA43 3JY neu e-bostiwch jasmine@mwldan.co.uk

**Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais erbyn 5pm ar 7fed Mawrth a chynhelir cyfweliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 12fed an 13fed o Fawrth.**